Archwilio Cymru
Audit Wales

# Powys Gynaliadwy:

## A yw trefniadau llywodraethu y Cyngor yn cefnogi ei ddull gweithredu yn effeithiol?

Cyngor Sir Powys

Rhagfyr 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn o dan y dyletswyddau a gynhwysir yn Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

**© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025**

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

**Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon**

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn
fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb
yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilydd Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cipolwg ar yr archwiliad | | 4 |
| Ein canfyddiadau | | 7 |
| Argymhellion | | 13 |
| Atodiadau | | 16 |
| 1 | Ynglŷn â’n gwaith | 17 |
| 2 | Esboniad o Bowys Gynaliadwy | 18 |

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn yr edrychom arno

1 Gwnaethom edrych ar drefniadau llywodraethu Cyngor Sir Powys (y Cyngor). Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau hyn yn cefnogi ei ddull 'Powys Gynaliadwy'.

2 Mabwysiadodd y Cyngor ei ddull Powys Gynaliadwy ym mis Gorffennaf 2024. Mae'n ei ddisgrifio fel dull strategol i'w helpu i gyflawni cynaliadwyedd ariannol a gweithredol. Mae gan y dull set o egwyddorion ac mae'n defnyddio dull ar sail lle, sy'n seiliedig ar bum ardal daearyddol craidd. Mae'r Cyngor yn bwriadu cymhwyso'r dull i bopeth y mae'n ei wneud. Felly, nid oes proses benderfynu ar wahân ar gyfer Powys Gynaliadwy; mae prosesau gwneud penderfyniadau safonol y Cyngor yn berthnasol.

3 Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu 'Portffolio Trawsnewid'. Mae'n cynnwys ei brosiectau newid mwy arwyddocaol. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol a'r Cabinet yn gweithredu fel y Bwrdd Portffolio Trawsnewid, sy'n goruchwylio'r gwaith. O dan y Bwrdd Portffolio Trawsnewid, mae strwythur rheoli rhaglenni ar waith. Ni wnaethom adolygu'r modd y mae'r Cyngor yn llywodraethu'r Portffolio Trawsnewid.

## Pam mae hyn yn bwysig

4 Mae'r Cyngor wedi rhagweld bwlch cyllido cronnol o bron i £40 miliwn dros y pum mlynedd nesaf. Yn wyneb y galw cynyddol am wasanaethau ac amgylchedd ariannol heriol, mae'r Cyngor wedi nodi bod Powys Gynaliadwy yn allweddol i sbarduno newid.

5 Gallai Powys Gynaliadwy gael effaith eang ar y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau. Gallai effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd. Mae'n bwysig bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu da ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau, gan sicrhau:

- bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd agored a thryloyw

- bod aelodau yn cael gwybodaeth gyflawn i seilio penderfyniadau arni
- bod digon o amser i graffu cyn gwneud penderfyniadau.

Mae hefyd yn hanfodol goruchwylio a monitro cynnydd a chanlyniadau newidiadau i wasanaethau fel bod y Cyngor yn deall yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

6 Nid yw trefniadau llywodraethu y Cyngor yn cefnogi'n llawn y newidiadau y mae'n dymuno eu cyflawni drwy ei ddull Powys Gynaliadwy. Mae gwendidau mewn trefniadau yn cynnwys:

- esboniad cyfyngedig o beth yw Powys Gynaliadwy yng nghynllun corfforaethol y Cyngor a sut mae'n gydnaws â'i amcanion corfforaethol
- nid yw'r Cyngor wedi diweddaru ei gyfansoddiad mewn modd amserol
- nid yw blaenraglenni gwaith ar gyfer pwyllgorau yn gynhwysfawr
- mae adroddiadau pwyllgor yn cael eu cyhoeddi'n hwyr yn aml
- nid yw adroddiadau ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau a'u heffeithiau yn cael eu nodi'n glir bob amser nac yn dangos yn llawn fod dull Powys Gynaliadwy yn cael ei gymhwyso
- nid yw adroddiadau bob amser yn cael digon o amser arweiniol i alluogi gwaith craffu effeithiol
- mae'r wybodaeth a ddefnyddir i fonitro'r cynnydd ac i asesu effaith a chanlyniadau newidiadau i wasanaethau yn gyfyngedig.

7 Mae'r Cyngor eisoes wedi dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r gwendidau llywodraethu a nodwyd.

## Yr hyn a argymhellir gennym

8 Mae gennym wyth argymhelliad i'r Cyngor i gryfhau ei drefniadau llywodraethu. Mae ein hargymhellion yn ymwneud â:

- phrosesau i gadw dogfennaeth corfforaethol allweddol yn gyfredol
- Blaenraglennu gwaith
- prydlondeb adroddiadau a chofnodion a'r graddau y maent ar gael

- eglurder adroddiadau
- trefniadau ar gyfer monitro cynnydd newidiadau i wasanaethau a’i effaith a’i ganlyniadau.

# Ein canfyddiadau

9 Ar y cyfan, canfuom nad yw trefniadau llywodraethu y Cyngor yn cefnogi'n llawn y newidiadau y mae'n dymuno eu cyflawni drwy ei ddull Powys Gynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r gwendidau llywodraethu a nodwyd.

## Mae esboniad cyfyngedig o beth yw Powys Gynaliadwy yng nghynllun corfforaethol y Cyngor a sut mae'n gydnaws â'i amcanion corfforaethol

10 Gwnaeth y Cyngor ddiweddaru ac ailgyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol 2023-2027 ym mis Gorffennaf 2025. Hwn yw'r prif gynllun corfforaethol ar gyfer y Cyngor. Fodd bynnag, er ei fod wedi mabwysiadu Powys Gynaliadwy 12 mis ynghynt, nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol yn egluro'r dull hwn yn glir.[1] Nid yw'n nodi ychwaith sut mae'n gydnaws ag amcanion llesiant y Cyngor.

11 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025-2030 y Cyngor yn darparu esboniad cliriach o ddull Powys Gynaliadwy. Mae gan y Cyngor dudalennau gwe Powys Gynaliadwy un pwrpas hefyd i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd. Fodd bynnag, ar adeg ein hadolygiad, nid oedd tudalennau gwe allweddol wedi eu diweddaru ers mis Gorffennaf 2024. Mae hyn yn golygu y gallai'r Cyngor fod yn colli cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd ar newidiadau i wasanaethau allweddol arfaethedig.

[1] Gweler **Atodiad 2** am esboniad o Bowys Gynaliadwy.

## Nid yw'r Cyngor wedi cadw ei gyfansoddiad yn gyfredol, nid yw'r blaenraglenni gwaith yn gynhwysfawr ac mae adroddiadau y pwyllgorau yn cael eu cyhoeddi'n hwyr yn aml

12 Ar adeg ein gwaith maes, roedd cyfansoddiad y Cyngor wedi dyddio mewn llawer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

- roedd yr wybodaeth am strwythur uwch-reolwyr y Cyngor, dirprwyo swyddogion a'r rhai sydd â chyfrifoldebau Swyddogion Statudol yn anghywir, er bod y newidiadau hynny wedi eu gwneud yn 2023
- roedd yn cynnwys cyfeiriadau at 'Gweledigaeth 2025', sef cynllun corfforaethol y Cyngor a ddisodlwyd ym mis Ebrill 2023 gan y cynllun corfforaethol newydd, 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach'
- roedd cylch gorchwyl y pwyllgorau craffu yn parhau i fod yn gydnaws â Gweledigaeth 2025.

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn allweddol i ddarparu fframwaith a sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau. Gallai unrhyw wallau neu ddiffyg eglurder yng nghyfansoddiad y Cyngor danseilio'r penderfyniadau a'r newidiadau y mae'r Cyngor yn dymuno eu gweithredu. Cytunodd y Cyngor ar ddiweddariadau i'r cyfansoddiad ym mis Hydref 2025. Mae'n bwriadu cynnal adolygiad cyflawn o'i gyfansoddiad erbyn mis Mai 2026.

13 Nid yw'r blaenraglenni gwaith ar gyfer pwyllgorau, yn enwedig y Cabinet, yn gynhwysfawr. Maent hefyd yn destun newidiadau hwyr. Gall hyn gyfyngu ar eu tryloywder a'u heffeithiolrwydd. Mae blaenraglenni gwaith cynhwysfawr a chyfoes yn bwysig er mwyn sicrhau bod y cyhoedd a'r pwyllgorau craffu yn ymwybodol o'r penderfyniadau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud.

14 Mae gan wefan y Cyngor dudalen we un pwrpas ar gyfer blaenraglenni gwaith ar gyfer y Cabinet a phwyllgorau craffu. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn diweddaru'r dudalen we honno. Yn hytrach, mae'n cyhoeddi'r blaenraglenni gwaith mewn papurau pwyllgor. Mae blaenraglenni gwaith hygyrch yn bwysig er tryloywder ac annog ymwybyddiaeth y cyhoedd a chyfranogiad ehangach yn y broses o wneud penderfyniadau.

15 Gall defnydd systemig y Cyngor o agendâu atodol effeithio ar lywodraethu a thryloywder effeithiol. Rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Gorffennaf 2025, roedd gan 78% o gyfarfodydd y Cabinet agendâu atodol. Mae’r defnydd o agendâu atodol yn golygu bod adroddiadau yn cael eu cyhoeddi'n hwyr yn aml ac nad ydynt yn unol â’r gofyniad i’w cyhoeddi dri diwrnod clir ymlaen llaw fel y’i nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor. Ym mis Hydref 2025, cytunodd y Cyngor i estyn y rheol tri diwrnod i bum diwrnod clir.

16 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi ei drefniadau ar gyfer Aelodau y Cabinet a swyddogion sy’n gwneud penderfyniadau dirprwyedig. Mae’r Cyngor yn cyhoeddi penderfyniadau Aelodau y Cabinet ar ei wefan. Mae’r Cabinet hefyd yn cael adroddiad cryno o’r holl benderfyniadau dirprwyedig gan Aelodau y Cabinet yn ei gyfarfod nesaf sydd ar gael, sy’n helpu tryloywder. Mae dolen ar wefan y Cyngor ar gyfer penderfyniadau dirprwyedig gan swyddogion, ond nid oes unrhyw wybodaeth sydd wedi ei chyhoeddi ar y ddolen hon. Dywedwyd wrthym yn ein gwaith maes mai’r rheswm dros hyn yw mai dim ond penderfyniadau gweithredol y mae swyddogion yn eu gwneud, nad oes angen eu cyhoeddi. Fodd bynnag, ni welsom ddull corfforaethol clir na chanllawiau i swyddogion ar bryd y mae angen cofnodi a chyhoeddi penderfyniadau gan swyddogion.

## Nid yw adroddiadau ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau a'u heffeithiau yn cael eu nodi'n glir bob amser na'u darparu gyda digon o amser arweiniol i alluogi gwaith craffu effeithiol

17 Nid yw adroddiadau y Cyngor ar newidiadau i wasanaethau a'u heffeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn glir bob amser. Clywsom gan rai aelodau yn ystod ein gwaith maes fod adroddiadau yn gallu bod yn rhy hir ac yn anodd eu deall. Nid yw adroddiadau yn nodi'n glir bob amser sut mae egwyddorion Powys Gynaliadwy a'r dull cynllunio sy'n seiliedig ar le wedi eu cymhwyso i newidiadau arfaethedig i wasanaethau.

18 Mae Asesiadau Effaith Integredig sy'n cyd-fynd ag adroddiadau yn hwyr yn aml a heb eu llofnodi yn gyson. Mewn un achos, roedd dau Asesiad Effaith Integredig gwahanol ar agenda cyfarfod ar gyfer yr un newid arfaethedig i wasanaeth, un yn nodi bod angen ymgynghoriad a'r llall yn nodi nad oedd angen hynny. Mae Asesiadau Effaith Integredig yn elfen bwysig yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig eu bod yn gyflawn, wedi eu gwirio a'u llofnodi.

19 Nid yw'r Cyngor yn sicrhau bob amser fod adroddiadau i'r pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn defnyddio'r templed cytunedig sy'n cwmpasu'r adroddiad. Mae'r adroddiadau clawr hynny'n bwysig gan eu bod yn nodi swyddogaeth a phwrpas y pwyllgor wrth ystyried yr eitem.

20 Nid yw'r Cyngor bob amser yn darparu digon o amser arweiniol ar gyfer adroddiadau ar newidiadau i wasanaethau i alluogi gwaith craffu effeithiol. Yn aml, mae eitemau yn dod at y pwyllgorau craffu ychydig cyn i newidiadau gael eu gweithredu. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r swyddogaeth i ymgysylltu â newidiadau arfaethedig ac i ymgymryd â chraffu llawn cyn penderfyniad. Ym mis Mai 2025, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar swyddogaeth graffu y Cyngor a gwnaethom argymhellion ar gyfer gwella.

21 Gwnaethom arsylwi pwyllgorau craffu yn ymgysylltu drwy ddadlau a herio yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd proses y Cabinet ar gyfer ystyried eu hargymhellion yn cyfyngu ar effaith y gwaith craffu. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cabinet yn gallu gwneud penderfyniadau heb ymateb i argymhellion y pwyllgorau yn gyntaf. Newidiodd hyn gyda’r cyfansoddiad diweddaredig a fabwysiadwyd ym mis Hydref 2025. Yn awr, mae’n rhaid i’r Cabinet ddarparu ymateb ysgrifenedig i argymhellion craffu cyn gwneud penderfyniadau ar adroddiadau cysylltiedig. Mae’r newid hwn yn bwysig. Mae’n helpu i sicrhau bod cyfraniadau y pwyllgorau craffu yn cael eu hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau.

22 Nid yw’r Cyngor yn cyhoeddi cofnodion pwyllgorau craffu a chyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn modd amserol bob amser. Er tryloywder a llywodraethu da, dylai cofnodion fod ar gael cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod y maent yn ymwneud ag ef a chael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor hwnnw sydd ar gael.

## Mae'r Cyngor yn gwella ei broses o adrodd yn gyhoeddus ar newidiadau allweddol i wasanaethau, ond cyfyngedig yw'r wybodaeth a ddefnyddir i asesu'r cynnydd a'r canlyniadau

23 Tan yn ddiweddar, roedd dull y Cyngor o alluogi gwaith craffu cyhoeddus ar ei adroddiadau Portffolio Trawsnewid yn gyfyngedig. Fodd bynnag, ym mis Medi 2025, ymrwymodd y Bwrdd Trawsnewid i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r Panel Cyllid yn chwarterol. Un o bwyllgorau craffu y Cyngor yw hwn. O ganlyniad, mae'r wybodaeth hon ar gael yn y parth cyhoeddus bellach.

24 Yn adroddiad chwarterol y Portffolio Trawsnewid, cyfyngedig oedd yr wybodaeth am ba aelodau allai asesu'r cynnydd a'r canlyniadau, er enghraifft:

- mae'r dangosfwrdd yn yr adroddiad yn dangos yr arbedion a gyflawnwyd ond nid yw'n dangos beth oedd yr arbedion targed. Felly nid oes unrhyw ffordd o asesu'r cyflawniad o'i gymharu â'r targed
- dangosir y ffordd y mae'r Cyngor yn cyfrifo adenillion o fuddsoddi fel yr adenillion o fuddsoddi o'u cymharu â gwariant y Cyngor yn unig, nid cyfanswm y gwariant (lle defnyddir cyllid o ffynonellau eraill hefyd).

25 Mae gwybodaeth fonitro am newidiadau ehangach i wasanaethau hefyd yn cael ei hadrodd mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, adroddiad ar berfformiad y Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol, adroddiadau ariannol ac adroddiadau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaeth penodol.

# Argymhellion

**A1** Er mwyn darparu mwy o dryloywder a chynorthwyo dealltwriaeth, dylai’r Cyngor nodi’n gliriach yn ei gynllun corfforaethol beth yw Powys Gynaliadwy ac egluro sut mae’n gydnaws ag amcanion strategol y Cyngor ac yn cefnogi’r broses o’u cyflawni (**paragraff 10**).

**A2** Dylai’r Cyngor sefydlu system i sicrhau bod ei gyfansoddiad yn gyfredol ac yn cael ei ddiweddaru (**paragraff 12**).

**A3** Dylai’r Cyngor gryfhau ei Flaenraglenni Gwaith ar gyfer pwyllgorau, yn enwedig ar gyfer y Cabinet, drwy:

**3.1** sicrhau eu bod yn gynhwysfawr ac yn gyfredol a bod newidiadau hwyr yn cael eu lleihau (**paragraff 13**)

**3.2** eu gwneud yn rhwydd eu canfod ar wefan y Cyngor (**paragraff 14**).

**A4** Dylai’r Cyngor sicrhau bod papurau ar gyfer pwyllgorau ar gael ac yn cael eu cyhoeddi yn unol â gofynion cyfansoddiad y Cyngor (fel gofyniad sylfaenol) a rhoi’r gorau i ddefnyddio agendâu atodol yn systemig (**paragraff 15**).

**A5** Dylai'r Cyngor ddatblygu ac ymgorffori dull corfforaethol clir o gofnodi a chyhoeddi penderfyniadau dirprwyedig gan swyddogion (**paragraff 16**).

**A6** Dylai'r Cyngor sicrhau bod adroddiadau i bwyllgorau ar newidiadau i wasanaethau:

**6.1** wedi eu nodi'n glir, yn rhwydd eu deall, ac yn esbonio'r effaith bosibl ar ddefnyddwyr gwasanaethau (**paragraff 17**)

**6.2** dangos sut mae egwyddorion Powys Gynaliadwy a'r dull cynllunio sy'n seiliedig ar le wedi eu cymhwyso i'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau (**paragraff 17**)

**6.3** yn cyd-fynd ag Asesiadau Effaith Integredig sydd wedi eu llofnodi, pan fo hynny'n angenrheidiol (**paragraff 18**).

**A7** Er mwyn cefnogi gwaith craffu mwy effeithiol, dylai'r Cyngor:

**7.1** sicrhau bod adroddiadau i'r pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyd-fynd â'r adroddiadau clawr y mae'r Cyngor wedi eu datblygu, sy'n nodi diben y pwyllgor sy'n cael yr adroddiad (**paragraff 19**)

**7.2** sicrhau bod digon o arweiniad mewn pryd ar gyfer adroddiadau ar newidiadau sylweddol i wasanaethau er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer gwaith craffu effeithiol (**paragraff 20**)

**7.3** adolygu a yw'r trefniadau newydd a fabwysiadwyd, fel y gall Cabinet ystyried argymhellion pwyllgorau craffu, yn cael eu hymgorffori ac yn gweithio fel y bwriadwyd (**paragraff 21**)

**7.4** sicrhau bod cofnodion pwyllgorau craffu a chyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gael cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod y maent yn ymwneud ag ef ac yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor hwnnw at ddibenion tryloywder a llywodraethu da (**paragraff 22**).

**A8** Dylai'r Cyngor ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr i'r aelodau er mwyn eu galluogi i fonitro a goruchwylio yn fwy effeithiol ar gynnydd y newidiadau i wasanaethau a'u heffaith a'u canlyniadau (**paragraff 24**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Edrychodd yr archwiliad ar drefniadau llywodraethu y Cyngor er mwyn cefnogi ei ddull Powys Gynaliadwy.

Cynhaliwyd ein gwaith maes rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2025.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

- A oes dealltwriaeth ar y cyd o bwysigrwydd cymhwyso'r dull a amlinellir gan Bowys Gynaliadwy?
- A oes gan y Cyngor drefniadau gwneud penderfyniadau clir?
- A yw trefniadau y Cyngor yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau wrth ystyried newidiadau a wnaed gan Bowys Gynaliadwy?
- A oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig yn cael eu goruchwylio o ganlyniad i Bowys Gynaliadwy?

### Meini prawf

Roedd y meini prawf ar gyfer yr archwiliad hwn yn seiliedig ar ganllawiau arfer da ar gyfer llywodraethu effeithiol, gan gynnwys cyfeiriad at Delivering Good Governance in Local Government Framework y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

## Dulliau

Gwnaethom gasglu tystiolaeth drwy adolygu dogfennau, arsylwi cyfarfodydd, a chyfweld aelodau o'r Cyngor, aelodau lleyg a swyddogion. Gwnaethom ddefnyddio ein gwybodaeth archwilio cronnol hefyd, gan gynnwys canfyddiadau o adroddiadau archwilio diweddar.

# 2 Esboniad o Bowys Gynaliadwy

Cymeradwyodd Cyngor Sir Powys, yn ei gyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2024, adroddiad o'r enw Egwyddorion Rhaglen Powys Gynaliadwy. Diben yr adroddiad oedd nodi'r 'fframwaith ar gyfer Powys Gynaliadwy, gan amlinellu egwyddorion y rhaglen ynghyd â meysydd cynllunio sy'n seiliedig ar le a'r egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.'

Noda'r adroddiad fod angen i'r Cyngor 'ailgynllunio Cyngor Sir Powys a'r math a'r niferoedd o wasanaethau y gallwn eu cynnig i roi'r sefydliad ar sail fwy cynaliadwy, gan symud oddi wrth doriadau gwasanaeth o'r naill flwyddyn i'r llall. Er mwyn cyflawni'r trawsnewidiad hwn, cytunodd y Cabinet a'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol i sefydlu Rhaglen Ailddychmygu Powys ym mis Ionawr 2023 (y cyfeirir ati bellach fel 'Powys Gynaliadwy'). Er mwyn llywodraethu'r rhaglen a gosod y safon ar gyfer asesu ein gweledigaethau gwasanaeth a'n glasbrintiau, mae dwy set o egwyddorion wedi eu drafftio a'u cytuno arnynt yn anffurfiol gan y Cabinet.'

**Egwyddorion Powys Gynaliadwy yw:**

- 'Bod yn feddwl agored a cheisio cael atebion arloesol, gan ddefnyddio'r holl arbenigedd sydd ar gael.
- Cyflenwi'r deilliannau gorau posibl drwy drawsnewid i ddarparu gwasanaethau o well ansawdd.
- Defnyddio tystiolaeth – er mwyn deall angen yn well a modelu galw'r dyfodol, os nad ydym ni'n cael canlyniadau yna fe ddylem newid.
- Proses barhaus o ddysgu ac addasu i fodloni anghenion cyfredol a hir dymor yn gynaliadwy.
- Ymgysylltu'n gynnar gyda phobl wrth gytuno, dylunio a chyflenwi ymagweddau fel ein bod ni'n gwrando, deall, myfyrio a rhoi adborth.
- Mynd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol: pam ydym ni'n gwneud yr hyn a wnawn?
- Ymagwedd strategol system gyfan, gyda phartneriaid, cymunedau a phobl Powys.
- Cyflenwi deilliannau sy'n fforddiadwy neu'n costio dim.'

**Meysydd ac Egwyddorion Cynllunio sy'n Seiliedig ar Le Powys Gynaliadwy yw:**

- 'Byddwn yn darparu canolfan ym mhob un o'r pedwar maes craidd – ni fydd dim byd arall yn cael ei ddarparu oni bai bod achos busnes cymeradwy i'w gefnogi.
- Byddwn yn defnyddio ysgolion ac asedau cymunedol eraill pryd bynnag y gallwn ar gyfer atebion a gwasanaethau cymunedol.
- Gall amseroedd teithio fod hyd at awr i'ch canolfan agosaf (hyd yn oed os ydych yn blentyn). Rhaid cefnogi'r ddarpariaeth yn ddigidol.
- Rhaid i drafnidiaeth cyhoeddus a chymunedol alinio pob ardal â'r canolfan.
- Cynigir bod gweledigaethau gwasanaeth a glasbrintiau cysylltiedig ar gyfer holl wasanaethau Cyngor Sir Powys yn berthnasol ac yn cadw at yr egwyddorion hyn.'

Yn gyntaf, cytunodd y Cyngor ar bedair ardal graidd a 13 lleoliad. Mewn cyfarfod dilynol o'r Cabinet, ar 26 Hydref 2024, newidiodd y Cyngor ei gynllunio yn seiliedig ar le o bedair i bum maes craidd.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.